

Mae i bawb ei ran

“...bu newyn yn y wlad, ac aeth dyn o Fethlehem... gyda’i wraig a’i ddau fab i fyw... yng ngwlad Moab.” (adn. 1)

Beth am ddarlenn Ruth 1:1–14 ac yna myfyrio

Ddoe fe arhosom i ystyried mai un o’r pethau tristaf a all ddigwydd i Gristion yw methu â sylweddoli fod ein stori bersonol ni yn gyson â’r stori mae Duw yn ei hadrodd yn ei epig gyffredinol sy’n cwmpasu’r bydysawd yn gyfan. Mae llawer gormod o Gristnogion yn ymateb i’r ffaith bod ganddyn nhw ran yn stori iachawdwriaeth Duw rywbeth fel hyn: “Fedra i ddim credu fod gan fy mywyd i unrhyw ran yn y cynllun tragwyddol. Dw i’n rhy fach a dibwys i gael unrhyw ran ym mhwrpas cosmig Duw.” Mae eu heuogrwydd, eu hofnau a’r ymdeimlad o israddoldeb yn dod at ei gilydd i wneud iddyn nhw deimlo efallai fod yna ran i bobl eraill ym mhwrpas cyffredinol Duw ond nid iddyn nhw eu hunain. Sut allwn ni ddianc rhag y fath agwedd?

Awgrym a allai fod o gymorth inni yw i ni droi at stori Ruth yn yr Hen Destament. Mae edrych ar Lyfr Ruth, yn anad unrhyw lyfr arall, yn ein helpu i ddeall mai penodau ydy’n bywydau yn epig fawr hanes Duw yn achub. Y peth diddorol ynglŷn â llyfr Ruth ydy’r ffaith nad oes yna unrhyw bersonoliaethau nodedig ynddo – dim brenhinoedd, proffwydi, barnwyr nac offeiriaid. Stori gyffredin, syml am dair gweddw a ffarmwr a’u profiadau bob dydd yn cael eu gwau i mewn i epig fawr Duw.

Gall enwau mawr y Beibl, megis Abraham, Isaac, Jacob, Joseff, Solomon, Dafydd a Daniel fod yn ormesol i bobl gyffredin. “Does bosib” medde nhw, “y galla’ i gael fy nghynnwys mewn cast o sêr mor enwog.” Mae stori Ruth, fel y gwelwn ni dros y dyddiau nesaf yma, yn chwalu safbwynt felly. Mae pob manylyn o fywyd pob credadun yn rhan o’r epig gyffredinol – stori iachawdwriaeth. Ac rwyf ti a fi cymaint rhan o hynny ag ydy Abraham, Isaac, Jacob, Joseff, Solomon, Dafydd, Daniel – a Ruth.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Eseia 55:1–2 Dat. 22:17

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth sydd ar gael yn economi Duw i’r rhai sy’n teimlo nad oes ganddyn nhw ddim byd?
2. I bwy mae dŵr bywiol yn cael ei gynnig yn rhad ac am ddim?

Gweddi

O Dad, a all hyn fod yn wir, fod manylion fy mywyd i yn cael eu clymu i mewn i stori’r iachawdwriaeth...fy mod i yn rhan o dy stori fawr di? Mae’n swnio’n rhy dda i fod yn wir ond hefyd yn rhy dda i beidio â bod yn wir! Dangos fwy i mi, annwyl Arglwydd. Yn enw Iesu. Amen.